



---

## YSGOL BRO ALUN

---

Mr Osian Jones BA  
Pennaeth Head Teacher  
Safle gwe / Website: [www.ysgolbroalun.cymru](http://www.ysgolbroalun.cymru)  
E-bost/E-mail: [mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk](mailto:mailbox@broalun-pri.wrexham.sch.uk)

Mehefin 25ain 2020

Annwyl rieni a gwarchodwyr

Isod mae gwybodaeth i rieni a gwarchodwyr ynglyn a threfniadau casglu a gollwng disgyblion yn yr ysgol o'r wythnos nesaf ymlaen. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei roi at ei gilydd gan ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r asesiad risg mae'r ysgol wedi ei gwblhau. Rydyn hefyd wedi gorfod cymryd i ystyriaeth effaith y gwaith adeiladu ar lwybrau a mynedfeydd o amgylch yr ysgol:

### **Pawb (plant sy'n dychwelyd at eu dosbarthiadau a plant i weithwyr allweddol)**

- Dylai rhieni gerdded i'r ysgol os yn bosib.
- Os oes angen defnyddio trafndiaeth, dylid osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus
- Ni ddylai aelodau o wahanol deuluoedd deithio yn yr un car.
- Os yn teithio mewn car ac yn parcio yn y maes parcio, **dim ond yn y manau parcio dynodedig y dylid parcio a nid ar y pafin nac yn unman arall. Rhaid cadw rhain yn glir.** Os nad oes lle, dylid parcio ar y ffordd y tu allan i'r ysgol.
- Dim ond un rhiant ddylai ddod i'r ysgol i ollwng a chasglu er mwyn cyfyngu ar y nifer sydd ar y safle.

### **Plant sy'n dychwelyd i'w dosbarthiadau ar y dyddiau penodol**

- Rydym yn ymestyn y cyfnod pan y gallwch ollwng eich plentyn yn y bore i fod rhwng **8:45am – 9:15am**
- Bydd angen i chi ddod drwy y giat yn y ffens werdd (llun 1 ar y daflen) at ddrws tân allanol y Neuadd (llun 2 ar y daflen) Bydd aelodau o staff yno i gymryd eich plentyn a mynd ac ef / hi i'r dosbarth. Yna, bydd angen i chi fynd nol allan i'r maes parcio drwy y giat nesaf yn y ffens (llun 3).
- Ar ddiwedd y dydd, rydym yn ymestyn yr amser casglu i fod yn 3:00pm i 3:15pm.
- Os ydech yn dod yn y car, arhoswch tu allan i'r car nes ein bod yn eich galw at giatau yn llun 4. Os ydech yn cerdded, arhoswch (2 fetr oddi wrth eich gilydd!) ar y darn gwair sydd i'r chwith o'r ddwy giat nes ein bod yn eich galw i nol eich plentyn.

## **Plant Gweithwyr Allweddol**

- Yr oriau y gall y plant sydd wedi archebu lle yn y ddarpariaeth gofal i blant gweithwyr allweddol dros y dair wythnos nesaf fynychu fydd **8:00am – 5:10pm**.
- Yn union fel mae'r drefn ar hyn o bryd, gallwch ollwng a chasglu eich plentyn o'r ddarpariaeth unrhyw bryd rhwng yr oriau hyn
- Os ydi'r plant sy'n dod i'r ddarpariaeth yn cyrraedd cyn 8:45am, byddant yn mynd i'r clwb brecwast. Os yden yn aros ar ôl 3:15pm, byddant yn mynd i'r clwb ar ôl ysgol (sy'n daladwy).
- Ni fydd cinio ysgol ar gael, bydd rhaid dod â cinio o adref
- O ran gollwng a chasglu, bydd angen i chi ddod a'ch plentyn at ddrws y brif fynedfa fel arfer gan ddefnyddio y giat yn llun 5.

## **Cyffredinol**

- Ni fydd posib i rieni gael mynediad i adeilad yr ysgol. Os oes unrhyw negeseuon, dyild ffonio, ebostio neu ddweud wrth aelod o staff wrth ddrws y neuadd.
- Rhaid i bawb gadw 2 fetr arwahan i'w gilydd yn enwedig os oes yna ychydig o aros i'w wneud wrth gasglu yn y prynhawn. Bydd yna farciau o amgylch tu allan i'r ysgol i gynorthwyo efo hyn.

Byddwn yn monitro y trefniadau uchod gan eich hysbysu os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau.

Gyda diolch am eich cydweithrediad,

Osian Jones